

2022

Pecyn Swydd – Swyddog Cyfathrebu Lle mae'r Afon Hafren yn Gwenu – Prosiect Rhwydwaith Ecolegol Gwydn

Annwyl ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb yn y swydd hon.

Ar hyn o bryd mae blwyddyn o'r prosiect wedi mynd heibio, a bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus adeiladu ar y gwaith gwych a gychwynnwyd eisoes gan dîm Agor Drenwydd a'i bartneriaid. Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn arwain y prosiect hwn am y 18 mis nesaf, ac er mwyn ehangu gallu ymgeiswyr i wneud cais am y swydd hon byddwn yn:

- Caniatáu secondiadau er mwyn i ymgeiswyr medrus a sefydliadau ystyried y rôl hon.
- Bydd cyfle i weithio oriau hyblyg a gweithio o gartref.

Gweler yn amgaeëdig gwybodaeth gefndir a manylion eraill i'ch helpu penderfynu a ydych am ymgeisio am y swydd, ynghyd â ffurflen gais i gyflwyno eich cais. Er budd cydraddoldeb, ni fyddwn yn derbyn CV. Byddwn yn asesu ymgeiswyr ar eu gallu i fodloni'r meini prawf a restrir ym manyleb yr unigolyn isod.

Yn amgaeëdig

- Gwybodaeth gefndir
- Swydd ddisgrifiad
- Manyleb yr unigolyn
- Ffurflen gais
- Ffurflen monitro cyfleoedd cyfartal.

Gellir anfon ceisiadau naill ai drwy ebost at: contact@opennewtown.org.uk neu drwy'r post at y cyfeiriad isod. Y dyddiad cau yw 5pm ar fore 24^{ed} Gorffennaf 2022.

Agor Drenwydd yw enw masnachol 'Going Green For a Living Community Land Trust Ltd'.
Llawr Uchaf, 9 Y Stryd Lydan, Y Drenwydd, Powys SY16 2LU. Rhif Cwmni 10976887

www.opennewtown.co.uk

Cynhelir cyfweiliadau 1ed Awst 2022 naill ai ar-lein neu yn ein swyddfa yn y Drenwydd. Noder: oherwydd ein bod yn disgwyl nifer uchel o geisiadau, yn anffodus ni fyddwn yn gallu hysbysu ymgeiswyr aflwyddiannus.

Os hoffech drafod y swydd yn anffurfiol, croeso ichi gysylltu â ni ar 01686 610777.

Yr eiddoch yn gywir,

Agor Drenwydd

Cefndir ac Amdanom ni

Agor Drenwydd yw'r enw cyhoeddus ar *Going Green for a Living Community Land Trust Ltd*. Ar ôl ei sefydlu'n ddiweddar (2017), ein diben yw datgloi ein mannau gwyrdd er mwyn creu cyfleoedd ar gyfer mentrau, gweithgareddau, bwyd, digwyddiadau, iechyd a llesiant, a phrosiectau ynni, a gwella bioamrywiaeth yr un pryd

Ein man cychwyn oedd Cynllun Gweithredu 2015 dan Arweiniad y Gymuned a luniwyd gan '**Newtown Unlimited**' fu'n ymgysylltu â 620 o bobl, gan dderbyn 1,310 o awgrymiadau. Ar ben y rhestr roedd Mannau Gwyrdd, yr Amgylchedd ac Ynni; nesaf roedd Teithio o Gwmpas a Sicrhau Argaeledd Mannau Diwydiannol a Busnes. Cyngor y Dref ddaeth yn gyfrifol am flaenoriaeth Mannau Gwyrdd, oherwydd bod ganddynt gyfle i geisio trosglwyddo asedau mannau gwyrdd y dref. Gwireddwyd hyn, ond ochr yn ochr ag ymarfer Cynllunio Go iawn, gyda chynrychiolwyr 50 o sefydliadau mewn neuadd eglwys, lle buon nhw'n gweithio i greu 220 o faneri ar fapiau, pob un ohonynt yn cynrychioli cynnig penodol o ran sut y gellir defnyddio'r mannau gwyrdd.

Felly yn 2016 roedd mandad gennym, ynghyd â Chyngor y Dref hynod gefnogol, ac erbyn 2018, trosglwyddwyd 140 erw o fannau gwyrdd y dref i'n cyfrifoldeb (ar brydles 99 mlynedd gan y Cyngor Sir, a thrwy Gyngor y Dref). Dyma'r enghraifft fwyaf trwy Gymru o drosglwyddo asedau cymunedol ar ffurf tir, a denodd buddsoddiad mewnol cychwynol gwerth £1.1 miliwn diolch i haelioni'r Gronfa Loteri.

Gan ddatblygu asedau gwyrdd a glas y dref, mae Agor Drenwydd wedi datblygu ystod o fentrau datblygu cynaliadwy megis:

Agor Drenwydd yw enw masnachol 'Going Green For a Living Community Land Trust Ltd'.
Llawr Uchaf, 9 Y Stryd Lydan, Y Drenwydd, Powys SY16 2LU. Rhif Cwmni 10976887

www.opennewtown.co.uk

1. **Parc Beicio Trefol a gwasanaethau campau dŵr.** Cefnogwyd gan Chwaraeon Cymru a Chyngor y Dref i adeiladu'r llwybr beicio mynydd a thrac pwmpio ar Fryn Trehafren. Bellach mae pedwar mynedfa i'r afon ar gyfer canŵ, sy'n cynnig mynediad a phleser.
2. **Parc Chwarae Newydd.** Mewn partneriaeth gyda Chyngor y Dref, mae'r gwaith o adeiladu parc chwarae newydd yng Nghanol y Dref ar y gweill fydd yn rhan o'r porth rhwng y ganolfan siopa a'r manau gwyrdd.
3. **Lleoliad Glanyrafon** yw'r adeilad newydd sbon a chanolfan ar gyfer ymwelwyr â'r dref. Mae'n cymryd lle hen adeilad Radio Hafren, ac yn atyniad newydd i'r dref. Defnyddiwyd safonau cynaliadwyedd uchel wrth ei adeiladu, ac mae'n borth rhwng cyfleusterau masnachol a gwyrdd canol y dref.
4. **Gwaith ym maes Cludiant Carbon Isel ar ddwy lefel:**
 - a. Ar y cyd â chymunedau rhwng y Trallwng a Machynlleth yn 2021 rydym yn sefydlu clybiau ceir trydan i gynyddu mynediad at wasanaethau cludiant fforddiadwy yn ein hardal wledig.
 - b. Mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Powys, byddwn yn ychwanegu Hyb Teithio Llesol ar gyfer Beiciau yn Lleoliad Glanyrafon, fydd yn galluogi trigolion ac ymwelwyr i gael gwell mynediad at y dref a'r ardal trwy feicio.
5. **Gwaith ym maes Ynni Adnewyddadwy** - rydym yn ystyried sut gall y dref arbed mwy o ynni a/neu greu ynni adnewyddadwy, gyda phrosiectau yn dod i'r amlwg ar ôl-osod tai, datblygu hyb biomas, a gwasanaethau cyflenwi gwres cynaliadwy i adeiladau yng nghanol y dref.

Agor Drenwydd yw enw masnachol 'Going Green For a Living Community Land Trust Ltd'.
Llawr Uchaf, 9 Y Stryd Lydan, Y Drenwydd, Powys SY16 2LU. Rhif Cwmni 10976887

www.opennewtown.co.uk

Cefndir prosiect Lle mae'r Afon Hafren yn Gwenu:

Yn ystod 2020 roedd Agor Drenwydd yn gyfrifol am gydlynu prosiect peilot gyda'r teitl 'Lle mae'r Afon Hafren yn Gwenu'. Er i Covid-19 amharu ar hyn, gosodwyd sylfeini:

- Partneriaeth gadarn o sefydliadau'r ardal ddaeth ynghyd i gydweithio mewn ffordd sy'n galluogi creu cyswllt rhwng ein hadnoddau naturiol a llesiant pobl.
- Ffordd o gydweithio sy'n cefnogi sefydliadau dielw.

Bellach mae'r bartneriaeth hon, dan arweiniad Agor Drenwydd, wedi ennill prosiect 27 mis i ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd yn y prosiect peilot a datblygu'r partneriaethau a gwasanaethau asedau naturiol yn wasanaethau cynaliadwy, sydd bellach yn rhan o'r broses o adfer economi gwyrdd Cymru, ond gyda chyfle go iawn o osod y Drenwydd fel un o'r cymunedau sy'n arwain wrth arddangos datblygiad cynaliadwy. Disgrifir menter Lle mae'r Afon Hafren yn Gwenu fel a ganlyn:

Cyfuno partneriaethau newydd a seilir ar natur ar raddfa y gellir ei chopio ar gyfer trefi marchnad, ymgysylltu â llawer mwy o bobl a busnesau (rhai trefol a gwledig) i reoli eu hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy ochr yn ochr â pheilota modelau cyflenwi newydd.

Gosod pobl ifanc a'u rôl fel 'arsyllwyr ecolegol' wrth galon y prosiect, a seilir ar dystiolaeth, tanategu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth. Cyfuno hyn gyda pheilota atebion hirdymor dichonadwy ar gyfer presgripsiynau gwyrdd a llesiant / cydnerthedd busnesau a dechrau peilota taliadau am wasanaethau ecosystemau gyda thirfeddianwyr.

I nodi mwy o fanylion, mae pum ffrwd gwaith fel a ganlyn:


- **Ffrwd gwaith 1 - Llesiant Pobl mewn Mannau Gwyrdd** trwy ddatblygu Gwasanaeth Presgripsiynau Gwyrdd. Gwneir hyn drwy bartneriaeth rhwng Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn, Cydweithfa Cultivate ac Oriel Davies ac mae'n datblygu'n uniongyrchol gwaith rhaglen beilot 2020 wrth gyflenwi rhaglen o sesiynau llesiant i fynd i'r afael â phroblemau iechyd.
- **Ffrwd gwaith 2 - Llesiant a Chydnerthedd mewn Busnes** trwy Gydnerthedd Busnes a seilir ar Natur. Partneriaeth newydd yw hon rhwng Economi Cylchol Canolbarth Cymru, Cymdeithas Ponthafren a Chronfa Bancio Cymunedol Robert Owen, sy'n cydweithio i gefnogi busnesau'r dref i sicrhau gwell

Agor Drenwydd yw enw masnachol 'Going Green For a Living Community Land Trust Ltd'.
Llawr Uchaf, 9 Y Stryd Lydan, Y Drenwydd, Powys SY16 2LU. Rhif Cwmni 10976887

www.opennewtown.co.uk

cysylltiad â'u hasedau amgylcheddol, cwtogi a glasu cadwyni cyflenwi, a meithrin mwy o gydnerthedd.

- **Ffrwd gwaith 3 - Tir a Bywoliaethau Cynaliadwy** o gwmpas ein tref sy'n mynd ag Agor Drenwydd i dirwedd wledig o amgylch y dref farchnad trwy bartneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Afon Hafren a Chronfa Bancio Cymunedol Robert Owen i gefnogi gwaith a seilir ar ffermydd o ran rheoli tir mewn ffordd gynaliadwy a thaliadau am wasanaeth ecosystemau.
- **Ffrwd gwaith 4 - Pobl Ifanc yn arwain Arsyllfa Un Blaned** sy'n cyfuno Agor Drenwydd yn cyflogi gweithiwr ieuencid yn uniongyrchol a'r addewid o gynnal Archwiliad Un Blaned ar y dref, gan osod gwaelodlin o ran sut y defnyddir ein hasedau amgylcheddol.
- **Ffrwd gwaith 5 – Cyfathrebu a Digwyddiadau mewn adnoddau naturiol** sef buddsoddiad newydd ar gyfer Agor Drenwydd fydd yn golygu cydweithio gydag Oriol Davies i gefnogi cyfres o ddigwyddiadau yn y dref, a buddsoddi mewn swydd Rheolwr Cyfathrebu i gefnogi ymgysylltu â chynulleidfa mor eang â phosib.



Y Drenwydd - yn flaenllaw fel grym i ddatblygu economi cynaliadwy yng Nghanolbarth Cymru.

Agor Drenwydd yw enw masnachol 'Going Green For a Living Community Land Trust Ltd'.
Llawr Uchaf, 9 Y Stryd Lydan, Y Drenwydd, Powys SY16 2LU. Rhif Cwmni 10976887

www.opennewtown.co.uk

Am y rôl

Ar hyn o bryd rydym yn awyddus i recriwtio Swyddog Cyfathrebu cadarnhaol, hynod drefnus, llawn cymhelliant a rhagweithiol, i oruchwylio prosiect Lle mae'r Afon Hafren yn Gwenu, ac i gydweithio gyda'n tîm bach o staff a gwirfoddolwyr: gweithio gyda'r bwrdd cyfarwyddwyr a'n partneriaid prosiect.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn:

- Meddu ar brofiad helaeth blaenorol o weithio trwy Gyfryngau Cymdeithasol, ym maes cysylltiadau cyhoeddus a marchnata digidol.
- Unigolyn hyblyg ac ystwyth, gyda sgiliau rheoli amser a rhyngpersonol rhagorol.
- Gweithio gyda'n swyddog Datblygu Mentrau i ymgysylltu â'r gymuned leol trwy gyfryngau cymdeithasol a helpu codi proffil Agor Drenwydd drwy'r prosiect.
- Talu sylw at fanylder ac yn gallu cydweithio gyda'n partneriaid amrywiol a'u cefnogi i gyflenwi targedau penodol y prosiect.
- Unigolyn digynnwrf sy'n gallu gweithio ar ei liwt ei hunan, yn ogystal ag fel aelod o dîm sy'n gallu cyfathrebu gyda phobl amrywiol mewn amgylchiadau gwahanol.
- Meddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol ac yn hyderus wrth gyflwyno diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd, Staff a'r Cyhoedd pan fo angen.
- Yn meddu ar ddealltwriaeth drwyadl o'r 3ydd sector a mentrau cymdeithasol.
- Meddu ar brofiad ym maes cyflwyno a chyflenwi ceisiadau grant ac at gyrff cyllido.
- Yn ddelfrydol, bydd yn deall ac yn gallu cyfathrebu trwy'r Gymraeg, yn llafar ac ysgrifenedig.
- Gallu gweithio'n annibynnol ac yn hyderus ynghylch gwneud penderfyniadau.
- Unigolyn cadarnhaol, yn llawn mentergarwch gydag agwedd o allu cyflawni.

Tîm bach ydym, ac rydym yn awyddus i benodi rhywun sy'n fodlon torchi llewys, dysgu'n gyflym, gweithio'n galed ac sy'n gallu ymdopi â nifer o bethau'n tynnu eich sylw, ac ar yr un pryd cadw pethau mewn perspectif a gyda hiwmor da!

Bydd y rôl yn amrywiol, ac yn golygu gweithio ar nifer o brosiectau'r un pryd. Mae angen rhywun sy'n frwdfrydig am helpu rhedeg y prosiect yn llyfn, a rhoi cefnogaeth i'n tîm, ein partneriaid, yn ogystal â'n cyllidwyr.

Agor Drenwydd yw enw masnachol 'Going Green For a Living Community Land Trust Ltd'.
Llawr Uchaf, 9 Y Stryd Lydan, Y Drenwydd, Powys SY16 2LU. Rhif Cwmni 10976887

www.opennewtown.co.uk

Swyddog Cyfathrebu

Yn atebol i: Cyfarwyddwr y Prosiect / Swyddog Datblygu Mentrau

Oriau: 2 ddiwrnod yr wythnos

Lleoliad: Y Drenwydd

Cyflog: £28,000 pro rata (£14 yr awr)

Hyd: Tymor penodol hyd at 31^{ain} Mehefin 2023

Gwybodaeth gyffredinol: Mae Agor Drenwydd yn chwilio am Swyddog Cyfathrebu profiadol i gefnogi ein Rheolwr Prosiect i gyflenwi a hyrwyddo “Prosiect Rhwydwaith Ecolegol Gwydn - Lle mae’r Afon Hafren yn Gwenu”.

Wrth i’n sefydliad ehangu, mae angen rhywun sy’n gallu hyrwyddo Agor Drenwydd a’i nodau. Ochr yn ochr â rhyngweithio â’r cyhoedd a sefydlu cysylltiadau buddiol a hirdymor gyda busnesau/unigolion lleol a sefydliadau eraill. Mae profiad ym maes marchnata digidol a gwasanaeth cwsmer rhagorol yn hanfodol.

Diben y swydd:

- Yn bennaf i danio, hyrwyddo a hysbysu’r gymuned, sefydliadau ac unigolion ynghylch gwaith Agor Drenwydd a’i bartneriaid.
- Helpu’r tîm i sicrhau fod Agor Drenwydd yn cyfathrebu’n effeithiol wrth estyn allan i’r Cyfryngau, ar gyfryngau cymdeithasol ac o ran cynnwys ein Gwefan, a chydweithio gyda’n partneriaid lle bo angen.
- Sicrhau fod yr holl gynnwys marchnata digidol yn cyd-fynd ag amcanion a gwerthoedd prosiectau Agor Drenwydd.
- Cadw cofnodion o ran sylw yn y cyfryngau, a choladu manylion dadansoddeg a mydryddiaeth ar gyfer ein cyllidwyr.
- Delio gydag unrhyw adborth negyddol mewn ffordd gadarnhaol a defnyddiol fydd yn hyrwyddo delwedd gyffredinol Agor Drenwydd. Gwrando ar a gweithio gyda’r cyhoedd i sicrhau y gellir trafod pryderon/ymholiadau, a delio gyda nhw yn y ffordd orau bosib.

Agor Drenwydd yw enw masnachol ‘Going Green For a Living Community Land Trust Ltd’.
Llawr Uchaf, 9 Y Stryd Lydan, Y Drenwydd, Powys SY16 2LU. Rhif Cwmni 10976887

www.opennewtown.co.uk

Cyfrifoldebau a phrif dasgau:

- Bod yn bennaf gyfrifol am reoli'r cyfathrebu gyda Busnesau, unigolion a sefydliadau partner ar y prosiect hwn.
- Cwrdd ac ymgysylltu â'r uchod i ymgynghori ar a chyfleu a hyrwyddo gwaith Prosiect Lle mae'r Afon Hafren yn Gwenu.
- Mynychu digwyddiadau a threfnu eich digwyddiadau eich hun sy'n helpu ymgysylltu ag a hysbysu'r cyhoedd ar Brosiect Lle mae'r Afon Hafren yn Gwenu.
- Paratoi datganiadau i'r wasg, cylchlythyrau a chyhoeddiadau rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol er mwyn rhannu a dosbarthu gwybodaeth i bawb sydd â diddordeb yn ein gweithgareddau.
- Sicrhau y caiff ein gwefan ei diweddarau, ar y cyd â'r Gweinyddwr a Rheolwr Datblygu Mentrau.
- Gweithio'n agos gyda Rheolwr y Prosiect i helpu rheoli cysylltiadau gyda sefydliadau a busnesau partner, a helpu trefnu digwyddiadau i hyrwyddo gwaith y prosiect.
- Creu cynnwys a rheoli ffrydiau cyfryngau cymdeithasol, gyda chefnogaeth Gweinyddwr y Swyddfa.
- Ceisio cyfleoedd i gyfoethogi enw Agor Drenwydd a chydlynu digwyddiadau cyhoeddusrwydd fel bo angen.

Dyletswyddau cyffredinol:

- Bod yn gyfrifol am eich iechyd a diogelwch a sicrhau nad yw cydweithwyr ac ymwelwyr yn destun perygl, ac yn dilyn canllawiau gwaith Agor Drenwydd o ran Covid-19.
- Gweithio'n effeithiol ac mewn ffordd ystyrlon gyda'r Bwrdd, eich cydweithwyr a'r cyhoedd i hyrwyddo nodau ac amcanion Agor Drenwydd, a chyfleu delwedd gadarnhaol o Agor Drenwydd i aelodau a'r cyhoedd.
- Glynu wrth bolisiau Agor Drenwydd ac ymdrechu i ddilyn arferion gwaith da bob amser.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn unol â chais rhesymol gan Gyfarwyddwr y Prosiect.

Agor Drenwydd yw enw masnachol 'Going Green For a Living Community Land Trust Ltd'.
Llawr Uchaf, 9 Y Stryd Lydan, Y Drenwydd, Powys SY16 2LU. Rhif Cwmni 10976887

www.opennewtown.co.uk

Gwybodaeth bellach:

Pensiwn: Oni ddewisir yn wahanol, byddwch yn cael eich cynnwys yn awtomatig yng nghynllun y gweithle; bydd cyfraniadau'n unol â chyfarwyddyd y llywodraeth, yn dilyn cwblhau cyfnod prawf o 3 mis yn llwyddiannus.

Gwyliau: 25 diwrnod o wyliau blyneddol ynghyd â gwyliau banc, pro rata fel y trefnir.

Lleoliad: Byddwch yn gweithio'n bennaf o'n swyddfa yng nghanol y Drenewydd.

Hwyrach y bydd peth hyblygrwydd i weithio o gartref o dro i dro.

Digwyddiadau/gwaith ymgysylltu â'r gymuned - bydd y rhain yn digwydd yn ardal y Drenewydd.

Oriau: 2 ddiwrnod yr wythnos. I'w gweithio ar sail hyblyg, ond bydd yn golygu rhywfaint o waith gyda'r hwyr ac ar y penwythnos ar adegau.

Contract: Tymor penodol hyd at 31^{ain} Mehefin 2023. Cyllidir y swydd hon trwy Lywodraeth Cymru.

Agor Drenewydd yw enw masnachol 'Going Green For a Living Community Land Trust Ltd'.
Llawr Uchaf, 9 Y Stryd Lydan, Y Drenewydd, Powys SY16 2LU. Rhif Cwmni 10976887

www.opennewtown.co.uk

Manyleb yr unigolyn: Swyddog Cyfathrebu

Hanfodol	Dymunol
1. Cymwysterau	
TGAU (neu gymhwyster cyfatebol) – Mathemateg a Saesneg/Cymraeg dros y raddfa pasio. Addysgwyd at addysg uwch, lefel gradd, yn y Cyfryngau, Cysylltiadau Cyhoeddus, Newyddiaduriaeth, Marchnata Digidol.	
2. Profiad ymarferol	
O leiaf 2 flynedd o brofiad ym maes datblygu strategaeth cyfathrebu.	Profiad o weithio gyda phrosiect cymunedol / 3ydd sector.
Profiad blaenorol o arwain ymgynghoriadau cyhoeddus.	Profiad a dealltwriaeth o'r Drenwydd a'r ardal gyfagos.
Profiad blaenorol o drefnu ac arwain digwyddiadau cyhoeddus.	Profiad o weithio ym maes cysylltiadau cwsmer.
Profiad o gyfryngau argraffu, digidol a chymdeithasol.	
3. Gwybodaeth	
Hyddysg am dactegau Marchnata Digidol megis Optimeiddio Peiriannau Chwilio a marchnata drwy ebost. Deall llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn drwyadl.	Profiad blaenorol o weithio gyda chyllidwyr megis Llywodraeth Cymru, Y Loteri Genedlaethol ac ati.
Dealltwriaeth o sefydliadau a'r prif randdeiliaid sy'n berthnasol i brosiect fel hwn yn y Drenwydd.	Gwybodaeth am ddatblygu cymunedol o safbwynt mannau gwyrdd. Byddai'r gallu i gyfathrebu trwy'r Gymraeg yn faintais fawr.
4. Sgiliau	
Sgiliau cyfathrebu llafar, ysgrifenedig a chyflwyniadol rhagorol.	Gallu glynu wrth a gweithio o fewn cyllidebau.

Agor Drenwydd yw enw masnachol 'Going Green For a Living Community Land Trust Ltd'.
Llawr Uchaf, 9 Y Stryd Lydan, Y Drenwydd, Powys SY16 2LU. Rhif Cwmni 10976887

www.opennewtown.co.uk

Sgiliau trefniadaethol rhagorol, a'r gallu i weithio ar eich liwt eich hunan dan bwysau ac i fodloni amserlenni tynn.	
Sgiliau golygu gwefannau. Sgiliau rhyngpersonol rhagorol, a'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol ac yn glir gyda nifer o grwpiau ac unigolion amrywiol.	
5. Rhinweddau personol (pob un yn hanfodol)	
Llawyn hunangymhelliant, yn gallu gweithio heb oruchwyliaeth, gweithio ar eich menter eich hun a bodloni amserlenni.	
Gallu dangos agwedd drefnus, a hyblyg tuag at eich gwaith.	
Gallu gweithio fel aelod o dîm ac ar eich liwt eich hunan.	
Gallu dangos eich bod yn talu sylw at fanylder.	

Agor Drenwydd yw enw masnachol 'Going Green For a Living Community Land Trust Ltd'.
Llawr Uchaf, 9 Y Stryd Lydan, Y Drenwydd, Powys SY16 2LU. Rhif Cwmni 10976887

www.opennewtown.co.uk

AGOR DRENEWYDD

Ffurflen Gais



Swydd y gwneir cais amdani:

Enw llawn

Cyfeiriad cartref

Rhif(au) ffôn inni gysylltu â chi

Cyfeiriad ebost

Oes gennych unrhyw euogfarnau? *Os oes, dylid nodi manylion ar ddalen wahanol at sylw Cyfarwyddwr y Prosiect. Ni fydd yn effeithio ar eich cais os nad yw'n berthnasol i'r swydd.*

Tystlythyrau *Noder manylion dan ganolwr sy'n barod i gefnogi eich cais. Dylai un ohonynt fod eich cyflogwr mwyaf diweddar.*

Enw llawn

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn

Ebost

A yw'n iawn cysylltu â'r unigolyn hwn cyn cyfweliad?

Sut ydych chi'n adnabod yr unigolyn hwn?

Enw llawn

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn

Ebost

A yw'n iawn cysylltu â'r unigolyn hwn cyn cyfweliad?

Sut ydych chi'n adnabod yr unigolyn hwn?

Open Newtown is the trading name of Going Green For a Living Community Land Trust Ltd.
Top Floor, No 9 Broad Street, Newtown, Powys SY16 2LU. Company Number 10976887

www.opennewtown.co.uk

Datganiad Rwyf yn deall y gall unrhyw wybodaeth ffug neu gamarweiniol a roddir yn y cais hwn olygu y gellir terfynu fy nghytundeb, os caf fy mhenodi. Rwyf yn datgan fod yr wybodaeth uchod, hyd y gwn i'n gywir.

Llofnod

Dyddiad

Os byddwch yn dychwelyd y ffurflen hon trwy ebost, cymerir yn ganiataol ichi ei llofnodi.

Open Newtown is the trading name of Going Green For a Living Community Land Trust Ltd.
Top Floor, No 9 Broad Street, Newtown, Powys SY16 2LU. Company Number 10976887

www.opennewtown.co.uk

--	--	--

Open Newtown is the trading name of Going Green For a Living Community Land Trust Ltd.
Top Floor, No 9 Broad Street, Newtown, Powys SY16 2LU. Company Number 10976887

www.opennewtown.co.uk

2. Gwaith a chyflogaeth presennol/gwaith gwirfoddol dros y deng mlynedd diwethaf. Gellir nodi manylion cyflogaeth berthnasol cyn hyn ar ddalen ychwanegol.

Teitl y Swydd	Cyflogwr	Dyddiadau	Crynodeb o ddyletswyddau

Open Newtown is the trading name of Going Green For a Living Community Land Trust Ltd. Top Floor, No 9 Broad Street, Newtown, Powys SY16 2LU. Company Number 10976887

www.opennewtown.co.uk

--	--	--	--

Open Newtown is the trading name of Going Green For a Living Community Land Trust Ltd.
Top Floor, No 9 Broad Street, Newtown, Powys SY16 2LU. Company Number 10976887

www.opennewtown.co.uk

3. Noder manylion eich gwybodaeth, sgiliau a phrofiad sy'n berthnasol i'r swydd hon.

Dylid talu sylw penodol at yr adran hon, oherwydd mae'n dangos inni pam rydych yn addas ar gyfer y swydd hon. Caiff eich cais ei asesu yn erbyn Manyleb yr Unigolyn. Dylech roi tystiolaeth ar gyfer pob pwynt ar Fanyleb yr Unigolyn, a bod mor benodol â phosib, ac ategu eich atebion gydag enghreifftiau. Gofynnir ichi hefyd egluro pam rydych yn gwneud cais am y swydd hon. Gellir parhau ar ddalen ychwanegol os oes angen.

Open Newtown is the trading name of Going Green For a Living Community Land Trust Ltd.
Top Floor, No 9 Broad Street, Newtown, Powys SY16 2LU. Company Number 10976887

www.opennewtown.co.uk

4. Oes unrhyw feysydd cyfrifoldeb yn y swydd ddisgrifiad lle bydd angen hyfforddiant neu raglen anwytho arbenigol ar eu cyfer efallai?

5. Noder manylion unrhyw ddyddiau gwaith a gollwyd oherwydd salwch yn ystod y 12 mis diwethaf (gellir dewis peidio ateb y cwestiwn hwn).

6. Ble gwelsoch chi'r hysbyseb ar gyfer y swydd hon?

Open Newtown is the trading name of Going Green For a Living Community Land Trust Ltd.
Top Floor, No 9 Broad Street, Newtown, Powys SY16 2LU. Company Number 10976887

www.opennewtown.co.uk

Dyddiad cau: 5pm Dydd Iau 24ed Gorffennaf Cyfweiliadau: 01/08/2022

Gofalwch eich bod yn dychwelyd y ffurflen hon erbyn y dyddiad cau at:

Ebost: contact@opennewtown.org.uk

Trwy'r Post: Agor Drenewydd, 9 Y Stryd Lydan, Y Drenewydd, Powys SY16 2LU

Open Newtown is the trading name of Going Green For a Living Community Land Trust Ltd.
Top Floor, No 9 Broad Street, Newtown, Powys SY16 2LU. Company Number 10976887

www.opennewtown.co.uk

Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal

Swydd y gwneir cais amdani

Mae Agor Drenwydd (ON) wedi ymrwmo i gyfleoedd cyfartal. Ein nod yw sicrhau na chaiff unrhyw ymgeisydd am swydd neu weithiwr driniaeth lai ffafriol ar sail rhywioldeb, nam, statws priodasol, rhyw, oedran, hil, crefydd, lliw neu genedligrwydd.

I gynorthwyo ON i wella arferion cyflogaeth, gofynnir i bob ymgeisydd ateb y cwestiynau canlynol, o'u gwirfodd, trwy dicio'r blychau priodol. Byddwn yn delio gyda'r wybodaeth yma, fydd yn cael ei defnyddio at ddibenion monitro'n unig, mewn ffordd hollol gyfrinachol, a **chaiff ei wahanu o'r ffurflen gais cyn llunio rhestr fer o ymgeiswyr.**

1. **Ticiwch y blwch i nodi beth yn eich barn chi yw'ch Grŵp Ethnig.** Noder: Nid yw'r Grŵp Ethnig yr un peth â'ch 'cenedl wreiddiol' neu 'hil' ond fel arfer caiff ei ddiffinio mewn perthynas â phobl neu ddiwylliant y mae unigolyn, neu ei gyndeidiau, yn uniaethu ag ef yn bennaf.

- | | | |
|---|---|--|
| <input type="checkbox"/> Bangladeshaidd | <input type="checkbox"/> Du Affricanaidd | <input type="checkbox"/> Du Ewropeaidd |
| <input type="checkbox"/> Du Caribiaidd | <input type="checkbox"/> Du Arall | <input type="checkbox"/> Tsieineaidd |
| <input type="checkbox"/> Indiaidd | <input type="checkbox"/> Pacistanaidd | <input type="checkbox"/> Gwyn Ewropeaidd |
| <input type="checkbox"/> Gwyn Arall | <input type="checkbox"/> Arall (noder manylion) | |

2. **Fy rhyw:** Benywaidd Gwrywaidd

3. **Yn eich barn chi, ydych chi'n anabl?** Ydw Nac ydw

4. **Beth yw eich grŵp oedran:**

- | | | | |
|----------------------------------|----------------------------------|--|----------------------------------|
| <input type="checkbox"/> 16 – 17 | <input type="checkbox"/> 18 – 25 | <input type="checkbox"/> 26 – 34 | <input type="checkbox"/> 35 – 44 |
| <input type="checkbox"/> 45 – 54 | <input type="checkbox"/> 55 – 64 | <input type="checkbox"/> 65 a throsodd | |

Open Newtown is the trading name of Going Green For a Living Community Land Trust Ltd.
Top Floor, No 9 Broad Street, Newtown, Powys SY16 2LU. Company Number 10976887

www.opennewtown.co.uk